

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Gweithdrefnau Addas i Astudio

1.0 Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Trafferthus neu Ymddygiad Arall sy'n achosi Pryder Difrifol

- 1.1 Gweler siart llif – Atodiad 1
- 1.2 Mewn sefyllfaoedd lle mae ymddygiad dysgwr yn achosi pryder (gweler Atodiad 2), dylai staff ddilyn gweithdrefnau gweithredol Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr. Os (yn ystod y sgwrs adferol/cefnogol cam 1) drwgdybir y gall ymddygiad dysgwr fod yn gysylltiedig â phroblem iechyd meddwl barhaus neu newydd, a/neu'n gysylltiedig â'i anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anabledd, dylai'r tiwtor/darlithydd geisio cyngor a chefnogaeth gan y timau ADY a Lles.
- 1.3 Dylai'r tiwtor drefnu i'r dysgwr gyfarfod â'r fîm cefnogi priodol i drafod ei anghenion cyn pen 10 diwrnod. Awgrymir rhaglen gymorth lle y bo'n briodol. Caiff hyn ei gyfleu i'r dysgwr, y Tiwtor y Cwrs, Dirprwy Bennaeth yr Adran a Phennaeth yr Adran yn unol â Pholisi Datgelu'r Coleg.
- 1.4 Bydd y timau ADY a Lles yn cadw cofnod canolog o'r holl atgyfeiriadau, camau gweithredu a datblygiadau sy'n ymwneud â phob myfyriwr. Ni ddylai hyn ddisodli adroddiadau'r tiwtor/Pennaeth yr Adran/ Dirprwy Bennaeth yr Adran.
- 1.5 Os bydd dysgwr yn gwrthod manteisio ar y cymorth a gynigir a/neu os nad yw ei ymddygiad yn gwella, yna mae anghenion cymorth y dysgwr unigol y tu hwnt i adnoddau'r Coleg. Yn yr achos hwn, bydd pryderon sylweddol heb eu datrys ynghylch ymgysylltiad unigolyn â'i astudiaeth neu bryderon sylweddol heb eu datrys ynglŷn â'i iechyd neu ymddygiad, trefnir cynhadledd achos.
- 1.6 Dylid cynnal y gynhadledd achos cyn pen 10 diwrnod gwaith o'r penderfyniad i weithredu fel hyn.
- 1.7 Caiff y gynhadledd ei chadeirio gan Uwch Reolwr perthnasol, h.y. Deon Taith Dysgwyr, sy'n gallu trafod y camau gweithredu mwyaf priodol. (Gweler Atodiad 3 – Cofnod Cynhadledd Achos)
- 1.8 Bydd y grŵp yn cynnwys (lle bo'n berthnasol) cynrychiolydd/cynrychiolwyr o'r adran academiaidd, h.y. Tiwtor y Cwrs neu Bennaeth yr Adran, a staff o dimau cymorth (e.e ADY, Llesiant, Diogelu) fel y bo'n briodol.
- 1.9 Gall y gynhadledd achos ystyried amrywiol opsiynau, gan gynnwys argymhell strategaethau cymorth ychwanegol, absenoldeb neu waharddiad. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad, cymerir gofal a rhoddir ystyriaeth briodol, er mwyn osgoi, cyn belled ag y bo modd, rhoi'r myfyriwr mewn sefyllfa fwy bregus neu sefyllfa sy'n cynyddu bregusrwydd myfyrwyr eraill.

Rhif Adolygu:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

- 1.10 Rhoddir gwybod yn glir i'r dysgwr lle mae pryderon ynghylch ei iechyd meddwl a/neu gorfforol a'r effaith ar yr unigolyn a/neu aelodau eraill o gymuned y Coleg, bod pryderon o'r fath yn fwy dwys na'r rôl fugeiliol arferol a bod angen eu hatgyfeirio at gymorth arbenigol.
- 1.11 Bydd yr Uwch Reolwr priodol yn cyfleu'r camau y cytunwyd arnynt i'r dysgwr mewn cyfarfod a fydd yn cael ei gynnal cyn pen 5 diwrnod gwaith o'r argymhelliad. Bydd y dysgwr yn cael ei gefnogi yn ystod y cyfarfod hwn gan eiriolwr addas o'i ddewis. Bydd y dysgwr yn cael gwybod:
- 1.11.1 am y penderfyniad a beth mae hynny'n ei olygu i'w astudiaeth
 - 1.11.2 am y weithdrefn 'Dychwelyd i Astudio'
 - 1.11.3 bod y weithdrefn hon yn gwbl ar wahân i weithdrefnau disgyblu'r Coleg
 - 1.11.4 pam fod y Coleg yn argymhell y camau hyn.
- 1.12 Bydd yr Uwch Reolwr priodol yn cynnal cyfarfod dadfrifio ar gyfer staff perthnasol cyn pen 14 diwrnod o gyfleu'r argymhellion i'r dysgwr dan sylw. Bydd cofnod byr o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i ddosbarthu i bawb sy'n bresennol ac i bartneriaid eraill ar sail 'angen gwybod'. Tanlinellir y broses o gofnodi gwybodaeth gan y cysyniad o 'ddyletswydd gudd' lle gall fod angen tystiolaeth o ba gamau sydd wedi'u cymryd mewn perthynas â chefnogi dysgwr pan fydd anabledd wedi'i ddatgan.
- 1.13 Er bod gan fyfyrwr anawsterau iechyd meddwl, cydnabyddir nad yw hyn yn lleihau'r ddyletswydd gofal sydd gan y Coleg i fyfyrwyr eraill mewn unrhyw ffordd. Dylid cydbwysu'r ddyletswydd gofal i fyfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl yn erbyn y ddyletswydd gofal i fyfyrwyr eraill. Bydd timau cefnogi'r Coleg yn gweithio gyda Thiwtor y Cwrs i ddarparu unrhyw gymorth y gallai fod ei angen ar y myfyrwyr eraill yn y grŵp.

2.0 Dychwelyd i Astudio

- 2.1 Os yw'r dysgwr wedi cael ei wahardd dros dro neu wedi cael cynnig absenoldeb, bydd yn rhaid iddo ddilyn y weithdrefn Dychwelyd i Astudio cyn y gall ddychwelyd i astudio.
- 2.2 Yn ystod y broses hon bydd y Coleg yn sicrhau bod y dysgwr yn cael cymorth gan dîm y cwrs, gyda chynghor gan wasanaethau cymorth y Coleg.
- 2.3 Bydd y Coleg yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwr ddangos cadarnhad priodol o'i iechyd a'i allu i ailddechrau astudio.
- 2.4 Os yw dysgwr wedi cael ei wahardd dros dro o'r Coleg oherwydd salwch seiciatrig, bydd angen asesiad ffurfiol arno gan ymarferydd meddygol priodol neu arbenigwr iechyd arall cyn dychwelyd i astudio.
- 2.5 Bydd 'Cynllun Dychwelyd i Astudio a Rheoli Risg' (Atodiad 4) yn cael ei lofnodi mewn ymgynghoriad â'r myfyrwr, y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles a'i diwtor cwrs, Dirprwy Bennaeth yr Adran neu Bennaeth yr Adran.
- 2.6 Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r canlynol:

Rhif Adolygu:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Dyddiad Adolygu	07/09/24
Nesaf:	

- 2.6.1 anghenion cymorth astudio penodol y dysgwr wrth ddychwelyd i addysg
- 2.6.2 y cymorth sy'n rhesymol angenrheidiol yn y tymor byr
- 2.6.3 cynnwys asiantaethau allanol a chysylltu â nhw
- 2.6.4 unrhyw gymorth neu addasiadau tymor hwy sy'n rhesymol ofynnol ac unrhyw amodau a allai neu a fydd yn berthnasol i ddarpariaeth.
- 2.7 Bydd y Cynllun Dychwelyd i Astudio a Rheoli Risg yn ymgorffori dadansoddiad risg sy'n ystyried y profiadau a arweiniodd at waharddiad cychwynnol y dysgwr o'i gwrs ac unrhyw wybodaeth arall y gwyddys ei bod yn berthnasol.
- 2.8 Bydd unrhyw ddychwelyd i astudio yn amodol ar gydweithrediad y dysgwr â'r broses hon a chydymffurfiaeth lawn ag unrhyw gytundeb a wneir.
- 2.9 Bydd aelodau o staff o fewn timau cefnogi'r Coleg ar gael i roi cyngor a chymorth i hwyluso'r broses o drosglwyddo'r dysgwr yn ôl i'r cwrs, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw gam y gallai fod eu hangen dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- 2.10 Pan ystyrir bod dychwelyd i astudio yn opsiwn, dylai'r dysgwr ddilyn y Polisi a'r prosesau Cwyno ac Apeliadau presennol os nad ydynt yn cytuno.

3.0 Cyfrinachedd

- 3.1 Ym mhob achos lle byddai, ym marn yr aelod o staff, er budd y dysgwr i ddatgelu gwybodaeth sensitif (e.e. fel y gellir darparu cymorth priodol), dylid cael caniatâd gwybodus y dysgwr lle y bo'n bosibl.
- 3.2 Bydd angen hysbysu'r dysgwr pam y gallai fod angen datgelu gwybodaeth sensitif, pwy fydd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth hon a chanlyniadau tebygol rhoi neu atal caniatâd (e.e. strategaethau cymorth ychwanegol fel addasiadau rhesymol gan gynnwys trefniadau arholi ychwanegol).
- 3.3 Unwaith y bydd caniatâd wedi'i sicrhau; cyfrifoldeb yr unigolyn sy'n trosglwyddo'r wybodaeth yw sicrhau y gwneir hynny yn unol â'r telerau y cytunwyd arnynt gyda'r dysgwr.
- 3.4 Os yw'r myfyriwr yn dewis peidio â rhoi ei ganiatâd, dylid parchu'r penderfyniad hwn. Yn y sefyllfa hon, dylid egluro goblygiadau peidio â datgelu o ran cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, ceir adegau prin pan fydd caniatâd y dysgwr yn cael ei dynnu'n ôl neu pan nad yw'n ymarferol ei geisio, a phan geir torri cyfrinachedd. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - 3.4.1 Pan fydd iechyd meddwl y dysgwr wedi dirywio i'r graddau nes y mae'n bygwth ei ddiogelwch personol
 - 3.4.2 Pan fydd y dysgwr mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei gamfanteisio'n ddifrifol
 - 3.4.3 Pan fydd ymddygiad y dysgwr yn cael effaith andwyol ar hawliau a diogelwch eraill
 - 3.4.4 Pan fyddai'r aelod o staff yn agored i weithdrefn sifil neu droseddol pe na bai'r wybodaeth yn cael ei datgelu (e.e. pe bai trosedd wedi'i chyflawni)

Rhif Adolygu:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Dyddiad Adolygu	07/09/24
Nesaf:	

- 3.5 Dylai staff ymgynghori â'r Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles priodol os ydynt yn credu bod angen torri'r ymrwymiad cyfrinachedd. Ni ddylai trafodaeth gychwynnol adnabod y dysgwr nes bod yr achos dros dorri cyfrinachedd wedi'i sefydlu a'i gytuno.

4.0 Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i drin defnyddwyr ei wasanaethau yn deg, waeth beth fo'u hil, rhywedd, hunaniaeth rywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd corfforol/meddyliol, beichiogrwydd neu statws priodasol.

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y weithdrefn hon gan ddefnyddio egwyddorion yr asesiad effaith ar gydraddoldeb.

5.0 Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Efallai y ceir amgylchiadau lle ymddengys bod gwrthdaro yn codi rhwng materion Addas i Astudio, ac iechyd a diogelwch gweithwyr a dysgwyr. Ymdrinnir â phob cais ar sail unigol.

6.0 Polisiâu Cysylltiedig

- Diogelu - Polisi Plant ac Oedolion Bregus
- Polisi Bwllo ac Aflonyddu
- Polisi Camddefnyddio Sylweddau
- Polisi Rheoli Perthnasoedd
- Polisi Datgelu
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Derbyniadau
- Polisi Cwynion gan Ddysgwyr

7.0 Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Gweithdrefnau Diogelu
- Gweithdrefnau Camddefnyddio Sylweddau
- Gweithdrefnau a Chanllawiau Rheoli Perthnasoedd
- Gweithdrefnau Datgelu
- Gweithdrefnau Cwynion gan Ddysgwyr
- Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch

Rhif Adolygu:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

8.0 Lleoliad a Mynediad at y Weithdrefn

Mae hon ar gael ar y wefan a phorth y staff, ac efallai na fydd yn gyfredol os caiff ei hargraffu.

Dyddiad cymeradwyo: 19 Ebrill 2013

Cymeradwywyd gan: Bwrdd Safonau Ansawdd

Dyddiad adolygu: 7 Medi 2024


Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth ADY a Llesiant

Arweinydd Gweithredol: Dirprwy Bennaeth

Ar gael i Ddysgwyr: Ydy

Rhif Adolygu:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

Atodiad 1 – Siart Llif Gweithdrefnau Addas i Astudio



Afodiad 2 – Ymddygiad sy'n Achos Pryder

Mae enghreifftiau o ymddygiad a allai olygu atgyfeiriad dan y Polisi Addas i Astudio yn cynnwys:

- Ymddygiad sy'n effeithio'n negyddol ar eraill yn y grŵp
- Ymddygiad sy'n ei gwneud hi'n amhosibl i'r dysgwr ddysgu
- Newidiadau cyflym mewn ymddygiad
- Pyliau o golli tymer etc.
- Cyfnodau o ymddieithriad llwyr
- Symptomau seicosis,
- Lles emosiynol yn dirywio ac angen cymorth risg

Rhif Adolygu:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

Afodiad 3 – Cofnod Cynhadledd Achos

Enw'r Dysgwr:		Rhif Adnabod Myfyriwr:	
Cwrs:			
Tiwtor Cwrs:			
Aelodau'r Panel:	Enw	Dynodiad	

Beth sydd wedi bod yn digwydd – yn y dosbarth, y tu allan i'r coleg?
Beth ydych chi wedi bod yn ei feddwl a'i deimlo – yn y dosbarth, y tu allan i'r coleg?
Pam mae hyn wedi bod yn digwydd? (Rhestrwch dystiolaeth feddygol yma)
Pwy y mae hyn wedi effeithio? Sut?
Yn eich barn chi, beth sydd angen digwydd i'ch galluogi i aros yn y Coleg? Beth sydd ei angen arnoch? Beth sydd ei angen ar y Coleg?

Penderfyniad y Gynhadledd Achos:	Parhau yn y Coleg gyda chymorth Absenoldeb o'r Coleg Diarddeliad Arall (nodwch)
Rheswm dros y Penderfyniad	

Llofnod y Cadeirydd:	
Llofnod Aelodau'r Panel:	

Atodiad 4 – Dychwelyd i Astudio a'r Cynllun Rheoli Risg

Enw'r Dysgwr:		Rhif Adnabod Myfyriwr:	
Cwrs:			
Tiwtor Cwrs:			
Aelodau'r Panel:	Enw	Dynodiad	

Sut wyt ti? Beth sydd wedi bod yn digwydd ers ein cyfarfod diwethaf? Beth sydd wedi newid?
Beth sydd ei angen arnoch i'ch helpu i ddychwelyd i'r Coleg?
Beth sydd ei angen ar eich dosbarth os ydych am ddychwelyd i'r Coleg?
Beth sydd ei angen ar y Coleg i'ch galluogi i ddychwelyd i'ch astudiaethau?
Pa dystiolaeth sydd ar gael i'ch cefnogi i ddychwelyd i'r Coleg?

--

Penderfyniad y Gynhadledd Achos:	Dychwelyd i'r Coleg Absenoldeb pellach o'r Coleg Diarddeliad Arall (nodwch)
Rheswm dros y Penderfyniad	

Camau gweithredu y cytunwyd arnynt i gefnogi dychweliad y dysgwr i'r Coleg.			
Camau Gweithredu Cytunedig	Gan Bwy?	Erbyn Pryd?	Pwy sy'n monitro?

Llofnod y Cadeirydd:	
Llofnod Aelodau'r Panel:	
Llofnodwyd y Dysgwr:	
Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad (os yn briodol):	

Rhif Adolygu:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24